# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1806(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar ran y Prif Weinidog

**At Peter Black:**

Yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 19 Medi, gofynasoch ynglŷn â'r cyflwyniadau pellach a osodwyd gennym ger bron Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i mi ateb.

Yn dilyn y drafodaeth yn y Cynulliad ar 6 Mehefin, ysgrifennais at James Plaskitt AS, yr Is-ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nodais yn fy llythyr at Mr Plaskitt y pryderon mawr a fynegwyd yn y bleidlais a gynhaliwyd yn y Cynulliad ar 6 Mehefin a gofynnais i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ailystyried ei phenderfyniad i beidio â pharhau â chyfrif cerdyn Swyddfa'r Post ar ôl 2010. Cyfeiriais hefyd at y pryderon a fynegwyd yn y ddau lythyr blaenorol a ysgrifennais at Weinidogion yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â chyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, gan nodi ein bod wedi parhau i gael cwynion wedi'u gosod ger ein bron yn erbyn y penderfyniad drwy gydol yr haf.

Mae fy swyddogion hefyd wedi achub y cyfle i roi adroddiad ar y bleidlais a gynhaliwyd yn y Cynulliad ar 6 Mehefin a'r daliadau a fynegwyd gan Aelodau Cynulliad mewn cyfarfodydd gyda'u cymheiriaid yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Masnach a Diwydiant.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1784(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ym mis Hydref 2006

**At Michael German:**

Yn ystod cwestiynau'r Cynulliad ar 19 Medi, cytunais i'ch hysbysu o'r cynnig a wnaed drwy'r gyllideb ar gyfer seilwaith drafnidiaeth yn y rhaglenni cydgyfeirio, a sut yr ymdrinnir â'r mater o grynhoi.

Mae Blaenoriaeth 6 Mesur 1 y rhaglen Amcan 1 yn cyfeirio at hygyrchedd a thrafnidiaeth; dyraniad cyllideb y mesur hwnnw yw 4.7 y cant o gyfanswm dyraniad y rhaglen Amcan 1 (h.y. £1.313 biliwn dros gyfnod 7-blynedd y rhaglen). Mae'r rhaglenni cydgyfeirio newydd yn cynnig mwy o symleiddio, gyda 6 blaenoriaeth arfaethedig i gymryd lle 37 mesur y rhaglen Amcan 1; mae trafnidiaeth wedi'i gynnwys yn y flaenoriaeth arfaethedig ar Flaenoriaeth 2 ERDF–Creu Amgylchedd Busnes Deniadol. Gan nad yw'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben eto—mae'n dod i ben ar 6 Hydref—mae'n rhy gynnar i drafod cynigion penodol o safbwynt gwariant ar hyn o bryd. Yr wyf wedi nodi yn y ddogfen ymgynghori ar y rhaglenni cydgyfeirio fod trafnidiaeth gynaliadwy yn rhan bwysig o raglen gytbwys, ac y bydd gwariant yn y maes hwn yn lled sefydlog.

O safbwynt eich pwynt ynglŷn â Dulyn, yr ydym yn mabwysiadu ymagwedd gytbwys drwy ddatblygu system drafnidiaeth integredig a fydd yn ategu ein datblygiad yn economaidd. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ymgynghori ar strategaeth drafnidiaeth ddrafft ar gyfer Cymru, a fydd yn darparu ymagwedd gydgysylltiedig tuag at symudedd am y tro cyntaf drwy geisio gwneud y mwyaf o gyfraniad trafnidiaeth at ddatblygu economaidd, yn ogystal â helpu i ddatblygu ein hagenda cymdeithasol ac amgylcheddol. Ein nod yw ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn rhoi mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, yn ogystal ag ategu twf economaidd drwy gyfrwng gwell cysylltiadau ac amseroedd teithio mwy dibynadwy. Yr ydym hefyd yn ymwybodol o'r

perthnasedd y cyfeiriasoch ato yn eich cwestiwn am drafnidiaeth wrth helpu i sicrhau manteision crynhoi.

O safbwynt adnoddau, yr ydym wedi cynyddu ein gwariant ar drafnidiaeth o ryw £200 miliwn yn 2000-01 i dros £500 miliwn yn 2006-07. Soniais yn fy ateb ein bod hefyd wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu rhaglen drafnidiaeth gwerth £8 biliwn dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn helpu i wireddu ein gweledigaeth o system drafnidiaeth integredig.

Bydd y cylch nesaf o raglenni cronfeydd strwythurol yn parhau i ddarparu adnoddau gwerthfawr i helpu i ddatblygu'r agenda trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru. Penderfynir ar yr union ddyraniadau yn sgil ein hymgynghoriad, ac yn sgil trafodaethau pellach gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, gan ystyried yr angen i sicrhau rhaglen gytbwys.